CAIS and your data

CAIS
empowering change
grymuso newid

How we treat and protect the information we collect about you

Why do we collect your data?

We collect information about you so we can:

- serve you as an individual as well as we can
- make the service we offer better for everyone
- improve our understanding of the issues you face

What data do we collect?

Contact data — to allow us to keep in touch with you
This might include your name, address, preferred language, phone number, email address and preferences

Sensitive data — to help us to understand your background and ensure equality
This might include details of your gender, ethnicity, health or criminal justice record

Service data — records of your time with us
This might include key dates, activities, case notes about your progress, and any outcomes you achieve

Anonymous data — to help us improve
This might include your feedback, and survey responses

How do we treat your data?

We keep it secure
Only authorised people have access to your data and personal data kept electronically is only shared securely

We only use what we have to
We will only use the minimum amount of information about you required for contractural, legal or safety reasons, and will anonymise data wherever we can

We won't keep your data for longer than we need to
We will keep your data up-to-date and destroy or anonymise it when we don't need it any more

0345 06 121 12
www.cais.co.uk

Examples of how we use your data

There are a number of ways we might use your data:

- we can use your data to show how far you have come
- we may use combined and anonymised data to show how effective our services are, and to help us understand where we can improve
- we may use your data to deliver services through our website, MyCAIS and text messaging systems
- our buildings may record CCTV images for the safety of our clients and staff, and crime prevention purposes

We will only use your personal data for publicity or in-depth research purposes where you have given us explicit consent in advance.

Your rights

- We will collect and process your data fairly
- We will allow you to see and obtain a copy of the data we hold about you if you request this
- We will correct your data if you tell us we have got it wrong
- We will delete your data if you request this (unless there is an overiding legal, contractural or safety reason to retain it)
- We will continue to hold your data for longer than normal if you request this
- We will allow you to change your mind when you give consent for your data to be used

More information

Speak to your worker about how we handle your data, or email **datarequest@cais.co.uk** for more information. You can read our privacy policy at **www.cais.co.uk/privacy**.

CAIS is registered with the Information Commissioner's Office, maintains policies on data protection, retention of records and confidentiality, and takes steps to comply with all relevant law and regulations.

CAIS Ltd is a limited company registered in England and Wales
Registered Office: 12 Trinity Square, Llandudno, LL30 2RA
Registered Number: 2751104 Charity Number: 1039386

CAIS a'ch data chi

CAIS
empowering change
grymuso newid

Sut rydym yn trin a diogelu'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi

Pam ein bod ni'n casglu'ch data?

Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch chi er mwyn inni fedru gwneud y canlynol:

- cynnig y gwasanaeth gorau posib ichi fel unigolyn
- gofalu bod ein gwasanaeth yn fwy effeithiol er lles pawb
- gwella'n dealltwriaeth o'r trafferthion rydych yn eu wynebu

Pa ddata rydym ni'n ei gasglu?

Data cyswllt – er mwyn inni fedru cadw mewn cysylltiad gyda chi
Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu'ch enw, cyfeiriad, iaith ddewisol, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a dewisiadau

Data sensitif – i'n helpu ni i ddeall eich cefndir a gofalu ein bod yn eich trin yn gydradd
Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu manylion am eich rhyw, ethnigrwydd, iechyd neu gofnod cyfiawnder troseddol

Data gwasanaeth – cofnodion o'ch cyfnod gyda ni
Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu dyddiadau allweddol, gweithgareddau, nodiadau achos am eich cynnydd ac unrhyw ddeilliannau rydych yn eu cyflawni

Data anhysbys – i'n helpu ni i wella
Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu eich adborth ac ymatebion i holiaduron

Sut rydym yn trin eich data?

Rydym yn ei gadw'n ddiogel
Dim ond pobl wedi eu hawdurdodi sydd â'r hawl i fwrw golwg ar eich data a chaiff data personol wedi ei gadw ar gyfrifiadur ond ei rannu'n ddiogel

Rydym ond yn defnyddio'r hynny sydd ei angen arnom ni
Byddwn ond yn defnyddio y lleiafswm posib o wybodaeth amdanoch chi er dibenion cytundebol, cyfreithiol neu ddiogelwch. Byddwn yn gofalu bod data yn anhysbys pan mae modd inni wneud hynny

Ni fyddwn yn cadw eich data yn hirach nag sydd angen inni
Byddwn yn diweddaru'ch data ac yn ei ddinistrio neu'n ei gadw'n anhysbys pan na fydd ei angen arnom ni mwyach

0345 06 121 12
www.cais.co.uk

Enghreifftiau o sut rydym yn defnyddio'ch data

Mae sawl ffordd posib y byddwn yn defnyddio'ch data:

- gallwn ddefnyddio'ch data i ddangos eich cynnydd
- mae'n bosib y byddwn yn defnyddio data cyfunedig ac anhysbys i ddangos effeithiolrwydd ein gwasanaethau ac er mwyn inni ddeall sut gallwn wella
- mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'ch data i gynnig gwasanaethau trwy ein gwefan, MyCAIS a systemau negeseuon testun
- mae'n bosib y bydd camerâu ar ein hadeiladau yn recordio lluniau CCTV er diogelwch ein cleientiaid a staff ac er dibenion atal troseddau

Byddwn ond yn defnyddio'ch data personol er dibenion cyhoeddusrwydd neu ymchwil trylwyr lle'r ydych wedi rhoi caniatâd penodol inni wneud hynny ymlaen llaw.

Eich hawliau

- Byddwn yn casglu a phrosesu'ch data yn deg
- Byddwn yn caniatáu ichi weld a derbyn copi o'r data rydym yn cadw amdanoch chi os ydych yn gofyn amdano
- Byddwn yn cywiro'ch data os ydych chi'n rhoi gwybod inni ei fod yn anghywir
- Byddwn yn dileu'ch data os ydych yn gofyn inni wneud hynny (oni bai fod rheswm cyfreithiol, cytundebol neu ddiogelwch gor-redol inni ei gadw)
- Byddwn yn parhau i gadw'ch data am yn hirach na'r arfer os ydych yn gofyn inni wneud hynny
- Byddwn yn eich caniatáu i newid eich penderfyniad pan fyddwch yn rhoi caniatâd inni ddefnyddio'ch data

Mwy o wybodaeth

Siaradwch gyda'ch gweithiwr i weld sut rydym yn trin eich data, neu anfonwch e-bost at **datarequest@cais.co.uk** i wybod mwy. Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd ar **www.cais.co.uk/privacy**.

Mae CAIS wedi ei gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae'n cynnal polisïau yn ymwneud â diogelu data, cadw cofnodion a chyfrinachedd ac yn mynd ati i gydymffurfio gyda holl ddeddfwriaethau a rheoliadau perthnasol.

Mae CAIS Cyf yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr
Swyddfa Gofrestredig: 12 Sgwâr y Drindod, Llandudno, LL30 2RA
Rhif Cofrestru: 2751104 Rhif Elusen: 1039386